



Datganiad cyllidol Hydref 2022

Cyflwyniad

Mae'r datganiad cyllidol hwn yn amlinellu newidiadau sylweddol i wariant Llywodraeth y DU ar wasanaethau cyhoeddus a threthiant, yn cynnwys y grant bloc i Gymru. Cydnabu'r Canghellor heddiw fod y Deyrnas Unedig mewn dirwasgiad economaidd, gyda rhagolygon y bydd yr economi yn crebachu gan 1.4% yn 2023.

Daw'r datganiad hwn ar amser hollbwysig yn yr argyfwng costau byw lle mae llawer o bobl mewn caledi sylweddol neu'n disgwyl bod mewn caledi sylweddol. Gwyddom fod pwysau dybryd ar fusnesau cymdeithasau tai hefyd. Mae'r papur gwybodaeth hwn yn rhoi rhai o'r penawdau allweddol ar faterion sydd yn neilltuol o berthnasol i gymdeithasau tai a'u tenantiaid.

Llesiant

Cynyddu budd-daliadau yn unol â chwyddiant

Am fisoedd cyn rhyddhau'r datganiad cyllidol hwn bu Llywodraeth Cymru a llawer o sefydliadau eraill, yn cynnwys CHC, yn galw am gynyddu budd-daliadau i gynyddu yn unol â chwyddiant er mwyn diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed rhag effeithiau gwaethaf yr argyfwng costau byw. Ynghyd â llawer o bartneriaid eraill buom hefyd yn ymgyrchu dros adolygu elfennau eraill o'r system budd-daliadau, yn cynnwys y cap ar fudd-daliadau.

Mae datganiad heddiw yn dweud y bydd budd-daliadau y mae prawf modd arnynt, yn cynnwys y Credyd Cynhwysol, yn codi yn unol â chwyddiant o fis Ebrill 2023. Caiff hyn ei fesur gan ffigur CPI Medi 2022 o 10.1%. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i rai budd-daliadau anabledd godi yn unol â chwyddiant bob blwyddyn. Caiff y cap budd-daliadau hefyd ei gynyddu gyda chwyddiant y flwyddyn nesaf.

Lwfans Cyflogaeth a Cymorth: oedi symudiad â reolir

Mae Llywodraeth y DU wedi oedi tan 2028 y symudiad â reolir ar gyfer hawllyr ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ac eithrio'r rhai syn derbyn y Gredyd Treth Plant) i'r Credyd Cynhwysol i 2028. Gall



hawlwr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ddal i hawlio Credyd Cynhwysol os credant y byddant yn well eu byd, ac ni fydd hyn yn effeithio ar symudiad â reolir budd-daliadau gwaddol eraill i'r Credyd Cynhwysol.

Amodau Mewn Gwaith ar gyfer hawlwr Credyd Cynhwysol

Disgwylir i fwy na 600,000 yn fwy o bobl ar y Credyd Cynhwysol gwrdd gyda hyfforddwyr gwaith i "gael y cymorth maent ei angen i cynyddu eu horiau gwaith neu eu henillion". Bydd hyn ar gyfer hawlwr y mae incwm eu haelwyd fel arfer rhwng cywerth â 15 a 35 awr yr wythnos.

DWP: buddsoddiad ychwanegol i fynd i'r afael â thwyll a chamgymeriad

Caiff £280m arall ei fuddsoddi yn yr Adran Gwaith a Phensiynau i weithredu yn erbyn twyll a chamgymeriadau budd-daliadau yn y ddwy flynedd nesaf.

Gohirio dyddiad Uno Budd-dal Tai yn y Credyd Pensiwn

Bwriedir yn awr i gynlluniau'r llywodraeth greu elfen tai newydd Credyd Pensiwn yn lle Budd-dal Tai Pensiynwr ddod i rym yn 2028-29. Bydd pensiynwyr cymwys yn parhau i dderbyn Budd-dal Tai.

Ad-drefnu Cymorth ar gyfer Llog Morgeisiau

I gefnogi benthydwyr morgeisiau gyda chynnydd mewn cyfraddau llog, bydd y Llywodraeth yn galluogi'r rhai sydd ar y Credyd Cynhwysol i wneud cais am fenthyciad i helpu gydag ad-daliadau llog ar ôl tri mis, yn hytrach na naw. Bydd y Llywodraeth hefyd yn diddymu'r rheol dim enillion i alluogi hawlwr i barhau i dderbyn cymorth tra'u bod mewn gwaith ac ar y Credyd Cynhwysol. Daw hyn i rym yn y gwanwyn 2023.

Cymorth costau byw

Cymorth gyda biliau ynni

Cyhoeddodd y Canghellor y bydd cymorth ar gyfer biliau ynni yn parhau yn ei le, ond y daw'n llai hael o fis Ebrill 2023. Ni roddwyd unrhyw wybodaeth bellach am beth fydd hyn yn ei olygu ar gyfer y Cynllun Rhyddhad ar Ynni (EBRS) ar gyfer cwsmeriaid annomestig na'r Cynllun Cefnogaeth Biliau Ynni (EBBS) ar gyfer pob cartref tu hwnt i fis Mawrth 2023. Ni chafodd unrhyw newidiadau yn y flwyddyn eu hamlinellu ar gyfer unrhyw gynllun cymorth ynni.

Fodd bynnag, mae adolygiad o EBRS dan arweiniad y Trysorlys yn mynd rhagddo gyda'r Llywodraeth heddiw wedi cyhoeddi cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad, gyda'r canfyddiadau i gael eu cyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2022. Er fod y Llywodraeth yn cydnabod y gall rhai busnesau barhau i fod angen cymorth tu hwnt i fis Mawrth 2023, bydd hwn yn gymorth wedi'i dargedu. Mae CHC yn gweithio gyda'n chwaer ffederasiynau i ddylanwadu ar yr adolygiad o'r EBRS gyda'r nod o sicrhau cefnogaeth barhaus i gymdeithasau tai tu hwnt i 2023.

Gwarant Prisiau Ynni



Cyhoeddwyd estyniad 12 mis i'r Warant o fis Ebrill 2023. Bydd y cap ar brisiau ynni cartrefi yn codi i £3,000 ar gyfer aelwyd nodweddiadol, i fyny o £2,500 ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu y bydd biliau ynni miliynau o gartrefi yn codi gan gannoedd o bunnau y flwyddyn.

Taliadau Tanwydd Arall

Bydd Llywodraeth y DU yn dyblu o £100 i £200 y lefel cymorth ar gyfer aelwydydd sy'n defnyddio tanwydd arall, megis olew gwresogi, nwy petrolewm hylif, glo neu biomas i wresogi eu cartrefi. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn rhoi taliad sefydlog o £150 i holl ddefnyddwyr annomestig y DU nad ydynt ar y grid nwy ac yn defnyddio tanwydd arall, gyda thaliadau ychwanegol ar gyfer rhai sy'n defnyddio llawer o olew gwresogi yn seiliedig ar yr union ddefnydd. Ni roddwyd unrhyw ddata penodol am pryd y disgwylir y taliadau hyn.

Taliadau costau byw ychwanegol

Bydd cymorth wedi ei dargedu i helpu gyda chostau byw ar gyfer rhai ar incwm isel, budd-daliadau anabledd a phensiynwyr. O fis Ebrill ymlaen, caiff taliad ychwanegol o £900 ei dalu i'r rhai sydd ar fudd-daliadau prawf modd, £300 i aelwydydd pensiynwyr a £150 i bobl ar fudd-daliadau anabledd.

Grant bloc Llywodraeth Cymru

Bydd £1.2bn ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn y ddwy flynedd nesaf fel canlyniad i wariant ar iechyd ac addysg yn Lloegr a gyhoeddwyd gan y Canghellor. Fodd bynnag mae'r cyllid ychwanegol yn annhebyg i fod yn ddigon i dalu am gost chwyddiant, ac felly mae'n doriad mewn gwir dermau i gyllideb Cymru.

Bydd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, a ddisgwylir yng nghanol mis Rhagfyr, yn nodi sut y caiff gwariant ar y gwasanaethau cyhoeddus ei ddyrannu yn y flwyddyn i ddod. Mae CHC yn gweithio i lywio a dylanwadu ar drafodaethau Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau'r Senedd ar flaenoriaethau ar gyfer y gyllideb arfaethedig.

Cyhoeddiadau eraill

Cynnydd rhenti cymdeithasol (Lloegr yn unig)

Bydd uchafswm o 7% ar gynnydd rhenti yn y sector rhent cymdeithasol yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Treth incwm

Mae'r Canghellor wedi ymestyn y rhewi ar y trothwy treth incwm o £12,570 am ddwy flynedd bellach, hyd fis Ebrill 2028.

Y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol



Caiff y Cyflog Byw Cenedlaethol ei gynyddu o £9.50 yr awr i rai dros 23 i £10.42 am fis Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi derbyn argymhellion y Comisiwn Tâl Isel i'r cyfraddau Isafswm Cenedlaethol Cenedlaethol fod yn weithredol o fis Ebrill 2023, yn cynnwys cynyddu o £9.50 i £10.52 yr awr ar gyfer pobl 23 a throsodd o fis Ebrill 2023.

Gweithlu Effeithiolrwydd Ynni

Mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi ymrwymiad hirdymor newydd i hybu gwelliannau mewn effeithiolrwydd ynni i ostwng biliau ar gyfer cartrefi, busnesau a'r sector cyhoeddus gydag uchelgais i ostwng defnydd ynni terfynol y Deyrnas Unedig o adeiladau a diwydiant gan 15% erbyn 2020 o gymharu â lefelau 2021.

Dull gweithredu newydd ar gyfer diogelu defnyddwyr ar ôl mis Ebrill 2024

Bydd y Llywodraeth hefyd yn datblygu dull newydd ar gyfer diogelu defnyddwyr mewn marchnadoedd ynni, fydd yn weithredol o fis Ebrill 2024 ymlaen, gan gwmpasu opsiynau megis tariffau cymdeithasol,, fel rhan o ddiwygiadau ehangach yn y farchnad manwerthu. Amcanion y dull gweithredu newydd hwn fydd cyflenwi chwarae teg i ddefnyddwyr, sicrhau fod y farchnad ynni yn gadarn ac y buddsoddir ynddi dros yr hirdymor, a chefnogi system ynni effeithol a hyblyg. Bu CHC yn galw am weithredu ar frys ar dariff cymdeithasol biliau ynni i helpu lliniaru yr argyfwng costau byw ar unwaith. Byddwn yn parhau i fonitro'r datblygiadau hyn yn agos ac yn ceisio cyfleoedd i ddylanwadu.

Treth stamp

Bydd y toriadau yn y dreth stamp a gyhoeddwyd yn y fini-gyllideb flaenorol yn parhau yn eu lle tan 31 Mawrth 2025. Mae'r OBR yn disgwyl i weithgaredd tai arafu dros y ddwy flynedd nesaf.

Camau nesaf

Byddwn yn asesu effeithiau'r datganiad hwn ac yn gweithio gyda'n chwaer ffedersynau i alw fel mater o frys ar Lywodraeth y DU i wneud mwy i sicrhau y caiff yr aelodau mwyaf agored i niwed cymdeithas eu diogelu'n ddigonol rhag effeithiau'r argyfwng ynni, y gaeaf hwn a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu parhaus i lywio adolygiad yr EBR, gyda'r nod o gefnogaeth barhaus i gymdeithasau tai tu hwnt i 31 Mawrth 2023.

Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau a rhoi tystiolaeth i swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru cyn cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, gan gyflwyno'r achos i ddiogelu buddsoddiadau hanfodol mewn tai, gofal a chymorth. Rydym hefyd yn cysylltu gyda Phwyllgorau'r Senedd wrth iddynt gynnal craffu cyn y gyllideb i sicrhau bod tai yn parhau i fod yn flaenoriaeth traws-bleidiol ar gyfer buddsoddiad ac y caiff ei ddiogelu.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â: Bethany Howells: bethany-howells@chcymru.org.uk